



Hyfforddiant Meddygaeth Fewnol yng Nghymru.

Cymeradwywyd cwricwlwm Meddygaeth Fewnol Cam 1 gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2017. Mae'n gynllun tair blynedd newydd sy'n disodli'r rhaglen ddwy flynedd Hyfforddiant Meddygol Craidd.

Mae'r rhaglen newydd yn canolbwyntio ar sicrhau Galluoedd mewn Ymarfer (CiPs) ar lefel uchel, gan gynhyrchu meddygon â'r sgiliau angenrheidiol i reoli cleifion sydd ag amrywiaeth eang o symptomau a chyflyrau meddygol er mwyn diwallu anghenion gweithlu'r dyfodol, fel y gwelir yn yr adroddiad Shape of Training.

Croeso i'r Hyfforddiant.

Hyfforddiant Meddygaeth Fewnol yng Nghymru.

Bydd y rhaglen Meddygaeth Fewnol Cam 1 yn cynnwys y tair blynedd gyntaf o hyfforddiant ôl-sylfaenol. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd mwy a mwy o gyfrifoldeb yn cael ei roi dros waith meddygol aciwt gan arwain at y Diploma MRCP (UK). Bydd yn cynnwys hyfforddiant gorfodol mewn **Meddygaeth i'r Henoed, Gofal Critigol, Cleifion Allanol a Thriniaeth Ddydd**. Bydd Cymru'n darparu lleoliad Gofal Critigol penodol am dri mis i roi profiad i bob un sy'n cael ei hyfforddi.

Beth all Cymru ei gynnig i chi

Rydym ni yng Nghymru am fynd gam ymhellach dros ein hyfforddeion Meddygaeth Fewnol, felly byddwn yn rhoi cyrsiau PACES i chi am ddim ar ôl i chi basio MRCP Rhan I. Byddwn yn cynnal dau gwrs bob blwyddyn, gan ddefnyddio cleifion a sefyllfaoedd clinigol go iawn i efelychu asesiad y Coleg.

Pan fyddwch wedi'ch penodi i'r rhaglen Meddygaeth Fewnol newydd, byddwch yn aros yn yr un rhanbarth o Gymru. Ni fydd angen adleoli, sy'n rhoi sefydlogrwydd i'ch bywyd cartref.

Mae Cymru hefyd yn cynnig cwrs IMPACT (Ill Medical Patients Acute Care and Treatment) am ddim i'r holl hyfforddeion Meddygaeth Fewnol. Rydym yn cynnal pump o gyrsiau wedi'u cymeradwyo gan y Coleg Brenhinol bob blwyddyn.

Mae tiwtor o Goleg Brenhinol y Meddygon ar gael ym mhob safle hyfforddi yng Nghymru. Byddant yn rhoi'r cymorth a'r arweiniad angenrheidiol i chi wrth i chi hyfforddi. Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli, byddwch yn profi'r ymdeimlad cryf o gymuned sy'n gwneud Cymru yn lle gwerth chweil i hyfforddi, gweithio a byw.

Hyfforddiant uwch mewn Meddygaeth

Ar ôl cwblhau Meddygaeth Fewnol - Cam 1 yn llwyddiannus, bydd modd i chi gyrraedd at ystod eang o yrfaeod meddygol. Yna, yn ystod Cam 2, byddwch yn cael hyfforddiant mewn arbenigeddau fel Cardioleg, Dermatoleg, Gastroenteroleg, Endocrinoleg, Diabetes, Meddygaeth yr Henoed, Meddygaeth Arennol a llawer mwy. Mae Cymru'n cynnig 24 is-arbenigedd Meddygol. Bydd pob grŵp o hyfforddeion dan oruchwyliaeth Pwyllgor Hyfforddiant Arbenigol ar gyfer y Rhaglenni Hyfforddiant Uwch.

Mae gan bob arbenigedd Meddygaeth Uwch Gadeirydd a Chyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddi, sy'n sicrhau bod digon o gymorth i bob un sy'n cael ei hyfforddi. Anogir pawb i ymuno â grwpiau WhatsApp yr arbenigedd, i gynnal ymdeimlad cryf o gymuned ymysg bob un o'r hyfforddeion a'r hyfforddwyr.